


## LLWYBR MAWDDACH

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 01766 770 274

Yn ymlusgo'n ddiog ar hyd cyn reilffordd ger aber y Fawddach, mae Llwybr Mawddach, sy'n berchen i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac a reolir ganddo, yn rhedeg o Abermaw i Ddolgellau. Mae gan y llwybr wyneb o lwch cywasgedig, gyda'r rhan o Lynpenmaen i Ddolgellau wedi'i addasu'n arbennig ar gyfer pobl anabl.

Wrth gerdded neu feicio ar hyd y llwybr, cewch olygfeydd gwych o'r ardal, yn ogystal â'r aber a phont fawreddog Abermaw. Mae yma hefyd amrywiaeth cyfoethog o gynefinoedd gwlyptir a choetir, er enghraifft Coedydd Abergwynant, sy'n gyfochrog â'r llwybr ac yn berchen i'r Awdurdod.

Mae Llwybr Mawddach yn rhan o Lôn Las Cymru, taith rhif 8 ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

## MAWDDACH TRAIL

Snowdonia National Park Authority, 01766 770 274

Winding lazily along a disused railway track, the Mawddach Trail which is owned and managed by the Snowdonia National Park Authority, follows the Mawddach estuary from Barmouth to Dolgellau. The path, having been surfaced using compacted dust, has further been developed between Penmaenpool and Dolgellau to cater for disabled users.

Awe inspiring views can be seen whilst walking and cycling the path, especially of the estuary and the spectacular Barmouth bridge. Also, hidden along the path verges and outlying land are species rich habitats such as wetland and forestry, for example Coedydd Abergwynant, a woodland adjacent to the path which is owned by the Authority.

The Mawddach Trail is part of Lôn Las Cymru, route number 8 on the National Cycle Network.